



YSGOL GYFUN GYMRAEG  
**GLANTAF**  
CORON GWLAD EI MAMIAITH

## Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Heol y Bont, Ystum Taf  
Caerdydd, CF14 2JL

**Pennaeth/Head:**  
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090

[ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk](mailto:ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk)

[www.glantaf.cymru](http://www.glantaf.cymru)

1 Medi 2022

Annwyl Riant / Warcheidwad,

### Dechrau Tymor yr Hydref 2022

Pleser ysgrifennu atoch ar ddechrau blwyddyn newydd yng Nglantaf ac wrth i ni edrych ymlaen at groesawu disgyblion yn ôl i'r ysgol. Gobeithio hefyd eich bod wedi cael gwyliau haf ymlaciol a phleserus. Byddwn yn croesawu BI7 a 12 yn ôl ar Ddydd Mawrth, 6ed o Fedi a phob disgybl arall ar Ddydd Mercher 7fed o Fedi.

### Canlyniadau BTEC, Safon Uwch, UG, TGAU a galwedigaethol.

Roeddem wrth ein bodd yn dathlu llwyddiant myfyrwyr yn eu harholiadau. O ran BI13, sicrhodd y mwyafrif llethol o fyfyrwyr lefydd yn eu dewis cyntaf o Brifysgolion neu leoliad ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd y canlyniadau cyffredinol yn ysgubol, gyda 62% o'r holl raddau wedi eu dyfarnu ar raddau A\*neu A a 93% o'r holl raddau a ddyfarnwyd yn A\*-C. Mae'r canlyniadau hyn yn wirioneddol ardderchog, ac maent yn arwydd o ymroddiad aeddfed a gwaith rhagorol ein myfyrwyr yn ogystal â chefnogaeth athrawon a thiwtoriadaid Glantaf. O rab BI11, roedd yn wych gweld myfyrwyr yn dathlu gyda 73% o fyfyrwyr yn llwyddo gydag o leiaf 5A\*-C gan gynnwys Mathemateg a Saesneg neu'r Gymraeg a 40% o'r flwyddyn yn ennill o leiaf 5A\*/A. Llwyddodd myfyrwyr BI10 mewn arholiadau Gwyddoniaeth ac Add Gref a modiwlau Hanes / Saes / Cym, ac maent yn haeddu clod am eu llwyddiant sy'n dangos gwir botensial! Llongyfarchiadau felly i bawb ar eu canlyniadau a dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol, a diolch am eu cyfraniad ardderchog i'r ysgol.



*Llwyddiant rhagorol i fyfyrwyr BI13!*



*Llwyddodd 44% o BI13 i sicrhau o leiaf 3 A\*/A*

### Staff newydd

Rydym yn falch o groesawu aelodau newydd o staff a fydd yn dechrau gyda ni yng Nglantaf yn mis Medi. Maent yn cynnwys: Arweinydd Canolfan Glantaf – Mrs Bethan Davies; Arweinydd Cerddoriaeth - Mrs Amanda Williams; Mrs Sian Bradley a Mr Ciaran Mitchell (Gwyddoniaeth); Ms Sara Evans (Add Gorff); Ms Lowri Jones (Cymraeg); Ms Gabrielle Cook (D&T); Mr Rhys Lloyd a Mr Chris Kelly (Mathemateg); Mr Matthew Budding (Saesneg) yn ogystal â Mrs Brid Price, Ms Iona Henson, Mrs Kirsty Morgan, Ms Aimee Gilkes, Mr Zach Mutyambizi, Mr Owain Roberts, Mrs Angharad Williams, Ms Lauren Evans a Ms Gwenno Jubb sy'n ymuno â'n tîm cefnogi dysgu. Rydym hefyd yn croesawu ein Swyddog Rygbi URC newydd, Mr Aled Ward a Thechnegydd Gwyddoniaeth Mr Mohamed Elkawafi.

### Newid i amser diwedd y dydd ysgol / Trafnidiaeth ysgol

Atgoffwn chi y bydd y diwrnod ysgol yn dod i ben am 2.50pm. Dylech fod wedi derbyn cadarnhad o'r trefniadau teithio i'r ysgol os yw eich plentyn yn gymwys am dtrafnidiaeth. Mae amserlen Bws Caerdydd (Llwybr 615) ar gael ar eu gwefan: [School services from September 2022 - Cardiff Bus](#) Bydd trwydded teithio disgyblion yn cael eu dosbarthu ddechrau'r tymor a bydd angen dangos y drwydded ar bob taith o ddydd Llun, 12 Medi.

### Dydd Mawrth 6ed Medi: Dechrau'r tymor i BI 7 a 12 yn unig

Byddwn yn croesawu myfyrwyr BI7 a 12 ddydd Mawrth 6 Medi am eu dydd sefydlu yng Nglantaf. Ar ddiwedd y dydd ysgol, bydd y disgyblion yn aros ar y campws a bydd BI12 yn arwain gweithgareddau

fel *bydis* ar gyfer carfan newydd BI7, cyn i ni deithio i gefnogi gêm Cymru v Slofenia yn Stadiwm Dinas Caerdydd (cic gyntaf am 7.45pm). Bydd y disgyblion yn mynychu'r gêm yn eu gwisg ysgol arferol. Os yw eich plentyn yn mynychu'r gêm gyda'r ysgol (BI 7 a 12) a'ch bod chi hefyd yn y stadiwm, casglwch eich plentyn o Eisteddle Ninian (Bloc 112-113). Ar ddiwedd y gêm, bydd myfyrwyr Glantaf yn aros yn eu seddi ac ar ôl 15 munud byddwn wedyn yn gadael y Stadiwm, i'r rhieni hynny nad ydynt yn mynychu i gyfarfod eu plentyn, y tu allan i **Fynedfa 5** (eto wrth Eisteddle Ninian). Cofiwch [nad ydym wedi trefnu bysiau](#) yn ôl i Glantaf ac felly mae angen casglu pob disgybl o'r Stadiwm tua 9.15pm.



*BI11 yn dathlu canlyniadau arbennig iawn!*

### **Cinio BI7**

Er mwyn cofrestru disgyblion BI7 ar ein system ParentPay yn gywir, gofynnwn i ddisgyblion BI7 ddod â pecynnau bwyd ar gyfer eu hwythnos gyntaf. Erbyn dydd Llun 12 Medi, dylai pob cyfrif fod yn weithredol. Yna byddwn yn cyflwyno disgyblion BI 7 i'r ffreutur yn raddol drwy gydol y mis: disgyblion yn 7Dewi a 7Dyfrig mynediad i ffreutur (wythnos 2, Llun 12 Medi) yna 7Illtud a 7Teilo (wythnos 1, Llun 19 Medi). Bydd pob disgybl BI7 yn cael mynediad dyddiol i'r ffreutur o 3 Hydref.

### **Diogelwch ffyrdd a seiclo diogel**

Rydym yn falch o groesawu'r parth 20mya newydd o amgylch yr ysgol ac rydym yn parhau i ofyn i chi beidio â pharcio neu godi / gollwng yn agos at gatau'r ysgol. Rydym yn annog disgyblion i seiclo i'r ysgol gan elwa o'r cynnydd mewn lonydd beicio o amgylch y ddinas ac yn benodol ar Lwybr y Taf. Dylai pob disgybl wisgo helmed wrth seiclo, sydd wedi bod mor bwysig yn y nifer fechan o ddigwyddiadau rydym wedi'u profi yn y gorffennol. Mae angen cloi beiciau'n ddiogel yn ystod y dydd gan ddefnyddio'r safleoedd pwrpasol ar gampws yr ysgol.

### **Ffonau symudol a defnyddia dy Gymraeg!**

Byddwn yn parhau â'n negeseuon lles o leihau amser sgrîn a defnydd ffôn symudol yn ystod y dydd. Atgoffwch eich plentyn i osgoi defnyddio ffôn symudol gan ein bod hefyd yn annog disgyblion i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn sgysiau bywiog ar ddechrau'r tymor newydd.

### **Noson Wobrwyo Chwaraeon 2021-22**

Byddwn yn cynnal ein Noson Wobrwyo Chwaraeon yn Neuadd yr ysgol nos Iau 15 Medi am 7 o'r gloch. Bydd tocynnau ar ParentPay o Ddydd Llun 5ed o Fedi.

### **Lluniau BI 7 a 12: Dydd Iau, 8fed o Fedi**

Bydd BI7 a 12 yn cael tynnu eu lluniau unigol ac fel blwyddyn gyfan, Ddydd Iau, 8fed o Fedi.

### **Cysylltwch â ni / Gwefan**

Diolch yn fawr am yr ymatebion caredig ynglŷn â'n gwefan newydd [Ysgol Glantaf](#). Mae manylion cyswllt ar gyfer pob Arweinydd Cynnydd a Lles ar y dudalen yma: [Progress & Wellbeing Support | Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf](#). Rydym yn gobeithio cynnal ein cyfathrebu cyson â chi drwy gydol y flwyddyn drwy'r cylchlythyron pythefnosol yma. Wrth i ni ddechrau blwyddyn newydd gyda'n gilydd, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus i Glantaf, ac os am fwy o fanylion, peidiwch ag oedi i gysylltu â ni yn yr ysgol a dilyn ein cyfrif trydar: @Ysgol\_Glantaf

Yn gywir,

Matthew H T Evans

Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



*Wynebau llawen wrth dderbyn canlyniadau BI11!*